Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

At rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Coety; y pennaeth, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Coety, ymgyngoreion rhagnodedig

**Addysg a Chymorth i Deuluoedd | Education and Family Support**

Deialu uniongyrchol / Direct line: (01656) 642617

Ein cyf / Our ref: Ysgol Gynradd Coety Primary School
Eich cyf / Your ref: Ysgol Gynradd Coety Primary School

Dyddiad / Date: 20 Medi 2023

Annwyl ymgynghorai

**Cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Coety, Ffordd yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH drwy ehangu'r ysgol o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad, i ddod i rym o fis Ionawr 2025**

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (y Cod), cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig a phartïon eraill â diddordeb rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 25 Ionawr 2023. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion am y cynnig uchod a gofyn am eu barn.

Ar 9 Mai 2023, adroddwyd am ganlyniad yr ymgynghoriad wrth y Cabinet a chyhoeddwyd adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhoddai'r adroddiad drosolwg ar yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac amlinellai ymateb y Cyngor i unrhyw faterion a godwyd.

Ar 9 Mai, yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i symud y cynnig yn ei flaen drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad cyhoeddus statudol ar 5 Mehefin 2023 am 28 diwrnod a hysbyswyd yr ymgyngoreion am hynny. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon at y cynigydd cyn diwedd 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Derbyniwyd dau wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

Ar 19 Medi 2023, bu Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried yn ofalus y cynnig a gyhoeddwyd, y gwrthwynebiadau statudol a ddaeth i law ac ymateb yr awdurdod lleol. Mae'r adroddiad am y gwrthwynebiadau ar gael i'w weld a'i lawrlwytho oddi ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau-sydd-wedi-cau/ymgynghoriad-ysgol-gynradd-coety/

Mae adroddiad y Cabinet ar gael ar gais mewn copïau caled a fformatau gwahanol oddi wrth:

**Y Swyddog Cyswllt:** Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth)

**Ffôn:** 01656 643643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Bydd y cynnig yn arwain at ehangu Ysgol Gynradd Coety drwy ddarparu estyniad deulawr gyda phedair ystafell ddosbarth a mannau atodol cysylltiedig. Bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu o 420 o leoedd i 525 o leoedd ar gyfer plant 4 i 11 mlwydd oed (hynny yw, ysgol gyda 2.5 dosbarth mynediad). Bydd gan y feithrinfa 84 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (hynny yw, 75 o leoedd llawn amser ar gyfer disgyblion 3-4 oed, a 9 lle cyfwerth ag amser llawn ar gyfer disgyblion meithrin rhan amser yn dilyn eu trydydd pen-blwydd). 75 fydd Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol newydd. Bydd y ddarpariaeth newydd yn agor o fis Ionawr 2025.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn gwneud y canlynol:

- galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn yr ardal;
- creu darpariaeth fydd yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol; a
- mynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad o ran y ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

### Ansawdd a safonau mewn addysg

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal o leiaf safon y ddarpariaeth yn yr ardal.

Rhydd y cynnig sylw priodol i addasrwydd adeilad yr ysgol, gan amlinellu’r cyllid sydd ei angen i ddatrys materion ei gyflwr yn ogystal â gwybodaeth am ariannu’r cynllun i ehangu’r ysgol. Rhydd y cynnig sylw priodol i gapasiti presennol yr ysgol. Mae'n ystyried yr effaith a gaiff y cynnydd yn y nifer derbyn ar y galw a ddisgwylir yn y dyfodol am leoedd ysgol yn yr ardal, ac mae’n ystyried yr effaith ar niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal ac ar drosglwyddo i ysgolion uwchradd. Nid yw'n ymddangos bod yr adeilad presennol yn gallu cwrdd yn ddigonol â'r galw am leoedd ysgol ar hyn o bryd.

Rhydd y Cyngor ddisgrifiad clir o'r amserlen a ragwelir ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynigion. Rhoddwyd gwybodaeth fanwl briodol am gryfderau a gwendidau pob un o'r dewisiadau a gafodd eu hystyried. Amlinellir effaith bosibl y cynnig, gan gynnwys gwybodaeth am yr effaith ar yr amgylchedd lleol ac mewn perthynas â llwybrau cerdded diogel.

Mae'r cynnig yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau eraill ac yn rhoi sail resymegol dros y dewis a ffefrir. Mae'r cynnig yn rhagamcanu cynnydd yn nifer y disgyblion, yn seiliedig ar or-danysgrifio, tai newydd a rhagor o gartrefi newydd wedi cael eu cynllunio yn yr ardal. Rhydd y cynnig wybodaeth gynhwysfawr am gapasiti ysgolion eraill yn yr ardal ac mae’n dangos mai cyfyngedig fydd yr effaith y mae’r cynnig yn debygol o’i chael arnynt.

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth ddigonol i effaith y cynnig ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg o dan ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ei hun a nododd y gallai effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae’n amlinellu’n glir lefel y galw am ddarpariaeth Gymraeg ac mae’n cynnwys manylion cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer cynyddu capasiti mewn ysgol gyfrwng Cymraeg yn yr ardal sydd i fod i agor ar ddechrau tymor yr hydref 2025.

Wrth ystyried effaith y cynnig ar ddysgu; lles ac agweddau at ddysgu; profiadau addysgu a dysgu; gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth, cyfeiriodd y Cyngor at ganlyniadau arolwg diweddaraf Estyn. Yn yr arolwg diwethaf ym mis Mawrth 2018, barnwyd bod Ysgol Gynradd Coety yn dda o ran safonau, lles ac agweddau at ddysgu a gofal, cymorth ac arweiniad. Barnwyd ei bod yn ddigonol ac angen gwelliant mewn addysgu a phrofiadau dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae’r cynnig yn awgrymu’n fyr y ffyrdd y bydd yn galluogi’r tîm arwain i siapio’r ddarpariaeth addysgu a dysgu i gefnogi cyflwyno’r cwricwlwm. Mae’n cynnwys barn gyfredol yr awdurdod lleol am ansawdd yr arweinyddiaeth a’r rheolaeth.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o’r farn y bydd effaith y cynllun ar les a gofal yn dda. Mae’n gwneud cyswllt rhwng yr adeilad newydd a chryfhau’r ddarpariaeth ddysgu ar draws ystod oedran yr ysgol. Mae’r awdurdod lleol yn nodi y bydd y cynnig yn gwella hygyrchedd yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cynhaliwyd asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb a chanfuwyd na ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol ar y rhan fwyaf o grwpiau. Nodir effeithiau cadarnhaol mewn perthynas ag anabledd a rhyw. Mae’r effaith negyddol bosibl a nodwyd ar dderbyniadau i addysg gyfrwng Cymraeg wedi cael ei lliniaru gan yr adeilad newydd sydd wedi ei gynllunio a’r cynnydd mewn capasiti yn yr ysgol gyfrwng Cymraeg leol sydd i agor yn nhymor yr hydref 2025.

Mae'r cynnig yn nodi ei bod yn bosibl y bydd y gwaith adeiladu yn amharu ar ddysgwyr tra bydd yn mynd rhagddo.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae dalgylch Ysgol Gynradd Coety wedi gweld datblygiadau tai mawr (hynny yw, safleoedd Parc Derwen a safleoedd Taylor Wimpey a Persimmon yng ngogledd-ddwyrain Bracla) ac mae galw sylweddol am leoedd disgyblion yn yr ardal hon yn gyffredinol. Mae'r ysgol yn gweithredu ar gapasiti ar hyn o bryd a gyda thai ychwanegol yn cael eu hadeiladu o fewn yr ardaloedd cyfagos a'r cyffiniau, bydd ateb hirdymor, yn ffurf estyniad deulawr, pedair ystafell ddosbarth, yn darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol.

Bydd adeilad yr ysgol a'r mannau allanol yn cael eu dylunio'n addas i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Trefniadau teithio**

Caiff disgyblion gludiant ysgol am ddim yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Darperir cludiant ysgol am ddim yn y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd os yw'r pellteroedd cerdded yn fwy na 1.5 milltir ar hyd y llwybrau cerdded sydd ar gael i ddisgyblion oed meithrin ac os yw'r pellteroedd cerdded yn fwy na 2 filltir ar hyd y llwybrau cerdded sydd ar gael i ddisgyblion cynradd.

Mae'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

Lleolwyd Ysgol Gynradd Coety o fewn datblygiad tai Parc Derwen, a rhagwelir y bydd y rhai sy'n byw'n uniongyrchol o amgylch yr ysgol ar hyn o bryd yn medru defnyddio dulliau teithio llesol, megis cerdded, beicio a sgwteri.

**Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Dyrannwyd £1.65 miliwn yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer y prosiect hwn. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i gytundeb adran 106 ar wahân mewn perthynas â thai ychwanegol yn yr ardal. Unwaith y bydd cyfraniad adran 106 wedi dod i law (tua £300 mil i gyd), bydd y cyllid hwn yn disodli rhywfaint o gyllid CBSP. Adroddir yn ôl wrth y Cabinet a'r Cyngor am unrhyw newidiadau i gyfanswm cost y cynllun fel y bo'n briodol.

Ni fydd y goblygiadau refeniw o ganlyniad i ehangu Ysgol Gynradd Coety yn hysbys nes bod y cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach, gan gynnwys y cynnydd yng nghyllideb ddirprwyedig yr ysgol i gwmpasu lle adeilad mwy a chynnydd yn nifer y disgyblion, ynghyd ag unrhyw gynnydd posibl mewn costau cludiant ysgol (fyddai'n dibynnu ar broses dderbyn yr ysgol a'r ceisiadau a wneid bryd hynny).

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) wedi nodi y gallai fod effaith negyddol ar y rhai sydd yn meddu ar un neu fwy o’r nodweddion gwarchodedig, ar anfantais economaidd-gymdeithasol neu’r defnydd o’r Gymraeg.

Mae’r cynnig hwn yn creu lleoedd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn y dalgylch ac mae’n bosibl na fydd rhieni disgyblion yn yr ardal hon, a allai fod yn ystyried addysg gyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, oherwydd anhawster i sicrhau lle i’w plentyn yn Ysgol Gynradd Coety o ganlyniad i ordanysgrifio yn yr ysgol, yn ystyried addysg gyfrwng Cymraeg mwyach. Nodwyd rhai effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys anabledd a rhyw. Bydd gweithredu’r cynnig yn llwyddiannus yn ei gwneud yn bosibl cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, er enghraifft, drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch gyda chyfleusterau niwtral o ran rhywedd. Gellir gweld yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar dudalen 18 (atodiad C) Adroddiad Ymgynghori - Ysgol Gynradd Coety.

https://www.bridgend.gov.uk/media/em2lqcuj/coety-primary-school-enlargement-consultation-document.pdf

**Effaith Gymunedol**

Bydd yr estyniad pedair ystafell ddosbarth wedi ei leoli ar safle'r ysgol bresennol a bydd yn darparu lle ychwanegol i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch lleol. Ni fydd newid yn nefnydd cymunedol adeilad yr ysgol; bydd y grwpiau cymunedol sydd eisoes yn defnyddio'r ysgol yn parhau i wneud hynny. Ni ragwelir y bydd effaith negyddol o gwbl ar y gymuned.

Bydd yr estyniad yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Rhagwelir effaith gadarnhaol o ganlyniad i ddarparu cyfleusterau modern, hygyrch.

Caiff yr estyniad pedair ystafell ddosbarth ei gynllunio i gefnogi Strategaeth Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 o ran cyflawni estyniad carbon sero net.

Caiff cymaint o iard ychwanegol â phosibl ei chreu, ac edrychir i mewn i’r dewisiadau i ddarparu llwybr wedi ei ffensio rhwng prif safle’r ysgol a’r cae 4G er mwyn creu llwybr diogel i’r disgyblion at le chwarae ychwanegol.

**Asesiad Effaith ar y Gymraeg**

Mae’r awdurdod lleol wedi ymrwymo i symud ymlaen â chynlluniau i dyfu’r Gymraeg yn strategol a chyda chynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad sylweddol, ei nod yw cyfrannu’n sylweddol at gyflawni gweledigaeth ‘Cymraeg 2050’ Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Gellir gweld Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol yr awdurdod lleol drwy’r ddolen ganlynol:

Fersiwn Gymraeg
https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/y-gymraeg/

Fersiwn Saesneg
https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/welsh-language
Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a ddaeth i’r casgliad na fyddai effaith o bwys ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir gan ddisgyblion yr ysgol ar hyn o bryd ac y byddai’r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu drwy’r cwricwlwm fel y mae yn awr.

**Dosbarthiadau meithrin**

Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol newydd fydd 75. Bydd gan y feithrinfa 84 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (hynny yw, 75 o leoedd llawn amser ar gyfer disgyblion 3-4 oed, a 9 lle cyfwerth ag amser llawn ar gyfer disgyblion Meithrin rhan amser yn dilyn eu trydydd pen-blwydd).

Dylai plant tair i bedair oed sy'n mynychu’r feithrinfa’n llawn amser fedru trosglwyddo i'r dosbarth derbyn, gan fod y PAN yn cyd-fynd â nifer y lleoedd meithrin amser llawn. Mae'r cynnig hwn wedi ei anelu at wella sefyllfa'r plant hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn. Dilynir proses dderbyn statudol yr ysgol, yn unol â’r Cod Derbyn i Ysgolion.

*Mae penderfyniad y Cabinet ar 19 Medi 2023 yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y’u nodir yn Rhan 4 o’r Rheolau Gweithdrefnau yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy’n caniatáu i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet, ond sydd eto i’w gweithredu, gael eu hadolygu. Pe bai hysbysiad galw i mewn dilys yn cael ei dderbyn gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.*

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**